

Pwyllgor Ieuentid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar y 29^{ain} o Fedi 2020 am 5.00pm

Yn bresennol yn y cyfarfod (a'r sgôr mewngofnodi / allangofnodi):

Pwyllgor Ieuentid : Phoenix (6.5 / 8), Rory (7/8), Jazz (8/8), Dylan (ceisiodd ymuno ond anawsterau technegol). Sarah Hoss (8.5/9.75)

Staff: Suzanne (5/7), Tom (8.5/9.5), Graham (8),

Ymddiheuriadau: Matt, Amy, Bryony, Habeba, Ethan

Materion a Drafodwyd

Eitem Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	<p>Croeso a chyflwyniadau / Mewngofnodi ac allangofnodi fel uchod mewn cromfachau</p> <p>Aelod newydd: Estynnwyd croeso cynnes i Jazz oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf heno, a chyflwynwyd hi i'r aelodau eraill.</p>	
2	<p>Diweddariad APCAP: Roedd gwaith awyr agored ymarferol yn parhau mewn ffyrdd bach y gellir eu rheoli. Aseidiadau risg o ran bysiau mini yn cludo pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ogystal â gweithio gyda grwpiau nad ydynt yn grwpiau APCAP.</p>	
3	<p>Diweddariad Ieuentid : Soniodd Suzanne am wobrau'r WCVA sy'n cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau pobl yng Nghymru. Cyfle i enwebu pwyllgor ieuentid/parcmyn.</p>	<p>https://wcva.cymru/st-davids-awards-nominations-closing-soon/</p>
4	<p>Unicef – Ymgyrch Outright - eleni mae'r ffocws ar newid yn yr hinsawdd a hawliau plant. Bydd yr ymgyrch yn rhedeg drwy gydol mis Medi hyd at yr 20^{fed} o Dachwedd, sef Diwrnod Dathlu Plant y Byd.</p> <p>Dechreuodd Tom drwy gyflwyno cwis i'r aelodau, a'r cyfan am newid hinsawdd.</p> <p>Yna defnyddiodd Tom ystafelloedd ymneilltuo am y tro cyntaf yn llwyddiannus i alluogi'r aelodau drafod cyfleoedd i gymryd rhan.</p> <p>Grŵp ymneilltuo 1 – Sarah, Rory</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd targedu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn llai effeithiol oherwydd eu	<p>Sicrhau bod aelodau eraill y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion.</p>

	<p>bod yn gwybod pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awgrym i annog pleidleiswyr newydd 16 a 17 oed i bleidleisio ar sail gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd. • Awgrym i bobl ifanc archwilio eu cartrefi neu ysgolion i ddarganfod pa mor ynni effeithlon ydynt a beth arall allant ei wneud i wella hyn. Ôl-troed carbon / ynni / ailgylchu ac ati. • Gallai hyn hefyd rymuso pobl ifanc i addysgu rhieni, athrawon ac ati. • Annog mwy o bobl i gymryd sylw o'r cwmnïau y maent yn eu defnyddio ac ystyried a ydynt yn gwmnïau mwy gwyrdd neu beidio. • Gall rhai ymgyrchwyr sy'n targedu eraill i ddod yn fegan fod yn eithaf ymosodol yn eu hymagwedd. Fodd bynnag, cydnabyddir mai ffermio cyfrifol yw'r ffordd ymlaen. <p>Grŵp ymneilltuo 2 – Pheonix, Jazz a Graham</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awgrym bod cynrychiolydd o bob ysgol yn annog eraill yn eu gwahanol ysgolion i bleidleisio ar y materion sydd bwysicaf iddynt hwy. 	
Unrhyw fater arall	<p>Bydd gofyn cael profiadau pob gwirfoddolwr i brofi'r arolwg.</p> <p>Cyfarfod byrrach heno gan fod Tom, Pheonix a Rory yn mynd i gyfarfod yn Abergwaun/Wdig.</p> <p>Trafodaeth fer ar y posibilrwydd o gynnal cyfarfod awyr agored yn ystod hanner tymor mis Hydref. Awgrymodd Sarah ei gardd fel man cyfarfod. ☺ Pheonix, Jazz a Rory ar hanner tymor ar y 25^{ain} o Hydref (h.y. nid pythefnos o wyliau fel rhai).</p>	<p>Tom i anfon gwybodaeth at Pheonix fydd yn dosbarthu'r neges drwy ddefnyddio'r sgwrs grŵp.</p> <p>Tom i ymchwilio i'r posibiliadau.</p>
	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
	13 ^{eg} o Hydref 2020	
	Daeth y cyfarfod i ben am 18:00	